



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2016

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 33

Llwyddo: 7

Ychydig dan chwarter o'r ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, er bod sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, ac eraill eto wedi methu oherwydd un elfen a lithrodd o dan y safon angenrheidiol. Roedd yn braf gweld pethau addawol ym mwyafrif y sgrïptiau, ac er bod ambell ymgeisydd yn amlwg wedi'i drechu gan y darnau yn yr arholiad, y teimlad cyffredinol oedd bod yr ymgeiswyr y tro hwn yn fwy ymwybodol o'r safon a ddisgwylid.

Siom unwaith yn rhagor oedd gweld ambell ymgeisydd digon addawol yn methu ar yr ail ddarn, i bob golwg oherwydd ei fod heb llwyddo i reoli ei amser yn ddigonol. Siom hefyd oedd gweld rhai gwallau cywirdeb elfennol na fyddid yn disgwyl eu gweld gan neb oedd yn honni bod yn gyfieithydd, e.e.:

Over a third (37%) of parents say they are concerned...

Mae dros dreian (37%) o rieni yn dweud ei fod yn gofidio...

Two-fifths (40%) of British parents...

Mae ugain y cant (40%) o rieni plant Prydeinig...

...suffering abuse or neglect...

...wedi dioddef amarch neu diofalwch...

This 'invisible minority' of young adults...

Mae'r 'lleiafrif anweledig' o blant a phobl ifanc hwn...

...the financial pressures and stress parents are under...

...y pwysau ariannol a'r straen sydd ar rieni...

Gwallau eraill cyffredin oedd yn brigo i'r wyneb oedd treigladau diangen ar ôl 'yn' (***yn le oeraidd***), methu â threiglo (***dros traean, trwy cerdyn credyd***), a chamsillafu annisgwyl

(effalai, heb fau, elysen, dychwelid, pryderi, haeddi, troseddi). Heblaw am y ffaith bod disgwyl i bob ymgeisydd ddefnyddio'r gwirydd sillafu cyn cyflwyno'u gwaith yn derfynol, dylai unrhyw un sydd am fod yn gyfieithydd fod yn effro i'r math yma o wallau esgeulus, a hyfforddi'i hun i sylwi arnynt wrth brawfddarllen gwaith.

Fel mor aml, un o'r peryglon pennaf i'r ymgeiswyr oedd crwydro'n rhy bell o ystyr y gwreiddiol. Er bod angen osgoi cyfieithu'n slafaid, rhaid sicrhau ar yr un pryd nad yw'r ystyr yn cael ei gymylu na'i newid, boed hynny trwy hepgor elfennau, ychwanegu elfennau, neu gamddehongli. Dyma rai enghreifftiau o'r gwallau ystyr a gafwyd:

Many others survive through their own resilience and determination, building successful careers and families.

Mae nifer eraill yn goroesi trwy fod yn benderfynol a chryf, drwy adeiladu gyrfa lwyddiannus a thrwy fagu teuluoedd.

...that around £16 billion in welfare benefits remains unclaimed each year.

...bod tua £16 biliwn o fudd-daliadau lles heb eu talu yn flynyddol.

Many of the brightest...

Bydd llawer o'r rhai mwyaf blaengar...

...new research reveals...

...mae ymchwiliadau'n datgelu...

...to care leavers aged 18-29 who are in crisis...

...i ofalu am y gadaelwyr mewn argyfwng o oed 18-29...

...household bills...

...biliau gosgordd...

...rough sleepers...

...cysgu'n wyllt/walch...

Fel y gwelir, mae'r gwallau ystyr hyn yn amrywio o gamddealltwriaeth digon syml i frawddegau lle mae'r ystyr wedi'i llurgunio'n llwyr.

Rhywbeth yn debyg oedd y sefyllfa o ran cystrawen, gan fod y gwallau'n amrywio o fân lithriadau i frawddegau oedd yn eithriadol o drwsogl eu mynegiant, e.e.:

In addition, 34% of parents say they feel guilty that their child may not have the newest or best clothes and equipment for school.

Yn ogystal, dywed 34 y cant eu bod yn teimlo'n euog nad gan eu plant, o bosib, y dillad neu'r cyfarpar gorau neu ddiweddaraf ar gyfer yr ysgol.

Yn ogystal â hyn, dywedodd 34% o rieni fod y posibilrwydd na fydd gan eu plant y dillad na'r offer gorau na diweddaraf yn eu gwneud i deimlo'n euog...

...nad yw eu plant efallai ddim yn meddu ar y dillad a'r offer gorau...

...mae 34% o rieni'n sôn eu bod yn teimlo'n euog na fod ei plentyn a'r dillad newydd neu gorau...

...the costs involved with getting their children ready for the new term.
...y costau sydd yn gysylltiedig â chael eu plant yn barod ar gyfer y tymor newydd.

Through no fault of their own...
Heb ei fod o unrhyw fai arnyn nhw...

...by the time they leave care.
...erbyn iddynt ddarfod fod o dan ofal.

...new research reveals...
...dangoswyd ymchwil newydd...

We make modest but vital grants...
Rydym yn cynnig grantiau bach mewn swm, ond rhai gwerthfawr...

...the 'care system' which is designed to protect them...
...y system gofal y cynlluniwyd i'w diogelu...

...around £16 billion in welfare benefits remains unclaimed each year.
...oddeutu £16 biliwn o fudd-daliadau lles yn mynd heb eu hawlio bob blwyddyn.

Gwaetha'r modd, mae dylanwad amlwg y Saesneg ar rai o'r enghreifftiau uchod yn dangos nad yw'r ymgeiswyr dan sylw wedi llwyddo i ymgyfarwyddo'n ddigonol â phatrymau'r Gymraeg, a'u bod felly'n methu ag ymbellhau oddi wrth batrymau'r gwreiddiol wrth drosi i'r iaith darged. Gwelwyd hefyd nifer o enghreifftiau lle roedd elfen benodol o ramadeg y Gymraeg (e.e. yr amhersonol neu'r cymal perthynol) yn peri trafferth i'r ymgeisydd.

At ei gilydd, cywair oedd un o'r elfennau cryfaf yng ngwaith ymgeiswyr y rownd hon, a dim ond yng ngwaith yr ymgeiswyr gwannaf y gwelwyd nifer o wallau cywair, er bod ambell ffurf anaddas fel **rhieni Prydeinig** (*British parents*) yn brigo i'r wyneb yn eitha cyson.

Wedi dweud hyn i gyd, cafwyd yng ngwaith yr ymgeiswyr cryfaf lawer o bethau da, ac fel y soniwyd eisoes, llwyddodd ychydig dros chwarter ohonynt i gynnal y safon ddisgwyliedig ar hyd y papur arholiad. Ar ben hynny, cafwyd cyfieithiadau rhagorol o sawl darn, gyda phob elfen yn teilyngu'r radd uchaf. Pleser o'r mwyaf yw darllen gwaith o'r safon hon, yn enwedig o dan amodau arholiad, gan fod hynny'n meithrin hyder yng ngallu'r ymgeisydd i gynnal y safon uchaf yn ei waith beunyddiol.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfieithiadau llwyddiannus a gyflwynwyd:

...new research reveals the financial pressures and stress parents are under from the costs associated with returning to school.
...mae ymchwil newydd yn datgelu'r pwysau a'r straen ariannol sy'n wynebu rhieni yn sgil y costau sy'n gysylltiedig â dychwelyd i'r ysgol.

...our belief is simple.
...mae'r hyn a gredwn yn syml.

*...people aren't always claiming the support available to them.
...nid yw pobl bob amser yn hawlio'r cymorth sydd ar gael iddynt.*

*We make modest but vital grants...
Rydym yn cynnig grantiau cymharol fach ond hanfodol...*

*If families are struggling to make ends meet...
Os yw teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd...*

*This 'invisible minority' of young adults have survived turbulent childhoods...
Mae'r 'lleiafrif anweledig' hwn o oedolion ifanc wedi byw trwy blentyndod cythryblus...*

*...concerned that the additional spending may impact on their ability to pay...household bills and expenses...
pryderu y gallai'r gwariant ychwanegol effeithio ar eu gallu i dalu costau a biliau'r cartref*

*Many of the brightest will leave care with no educational qualifications because of the amount of disruption in their young lives.
Bydd llawer o'r rhai mwyaf galluog yn gadael gofal heb unrhyw gymwysterau addysgol oherwydd yr holl amharu a fu ar eu bywydau ifanc.*

*They deserve a better start and a brighter future.
Maent yn haeddu dechrau gwell a dyfodol mwy disglair.*

Mae addewid yr ymgeiswyr hyn yn amlwg, a braf iawn oedd gweld cnewyllyn sylweddol yn llwyddo i gynnal y safon hon. Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, fodd bynnag, carwn annog nifer o'r lleill i ddyfalbarhau, ac i fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu sgiliau ymhellach, gan eu bod yn bendant o fewn cyrraedd i'r safon ddisgwyliedig.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 14
Llwyddo: 6

Bu bron hanner yr ymgeiswyr yn llwyddiannus yn y rownd hon, ac er na lwyddodd neb i gyflawni rhagoriaeth yn y ddau ddarn, braf oedd gweld ambell un yn agos at hynny. Wedi dweud hynny, roedd y safon yn amrywio cryn dipyn, ac er na chafwyd yr un ymgais anobeithiol, teimlid o bosib nad oedd ambell un wedi cael digon o brofiad o gyfieithu i'r Saesneg, gan fod sawl elfen o'u gwaith wedi llithro o dan y safon ddisgwyliedig.

Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu deallus gan fwyafrif yr ymgeiswyr, e.e.:

Mae'r Aelod Cynulliad Julie Morgan wedi cael ei phenodi'n gadeirydd pwyllgor fydd yn helpu i sicrhau bod Cymru yn manteisio'n llawn ar yr arian sy'n weddill o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Assembly Member Julie Morgan has been appointed chairman of a committee which will help to ensure that Wales takes full advantage of the funding still available from the European Union.

Wrth ddod i'r swydd bydd yn arwain pwyllgor sy'n cynnwys 28 o aelodau...
As she takes up the post, she will be leading a 28-strong committee...

...ar gyfer sicrhau'r canlyniadau gorau posib wrth i ni baratoi i newid ein perthynas gydag Ewrop.

...as a means of securing the best possible outcome as we prepare to change our relationship with Europe.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau'r fargen orau i Gymru yn y trafodaethau sydd i ddod...
Our priority is to secure the best possible deal for Wales in the forthcoming negotiations...

Bellach bu drysau Castell Aberteifi ar agor i'r cyhoedd ers dros flwyddyn
It has now been over a year since Cardigan Castle opened its doors to the public

Gwaetha'r modd, ochr yn ochr ag enghreifftiau fel y rhain, cafwyd hefyd wallau esgeulus megis ***Prime Minister of Wales*** (*Prif Weinidog Cymru*) a ***Welsh Assembly*** (*Llywodraeth Cymru*), sy'n anfaddeuol gan unrhyw un sy'n honni bod yn gyfieithydd. Byddai disgwyl hefyd, hyd yn oed ar y lefel sylfaenol, i bob ymgeisydd wybod y gwahaniaeth rhwng 'adnewyddu' ac 'adfywio', ac roedd dewis ambell un o eirfa yn wan oherwydd eu bod heb ymdeimlo'n ddigonol â chyweiriau'r Saesneg. Enghreifftiau o hyn oedd defnyddio 'utilise' lle buasai 'use' yn ddigonol, 'victors' yn hytrach na 'winners', 'erected/raised the castle' yn hytrach na 'built', a 'best bargain' yn hytrach na 'best deal'.

Diffyg ymwybyddiaeth o batrymau naturiol y Saesneg oedd yn gyfrifol hefyd am enghreifftiau fel y canlynol:

...chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau...

...play an important role in the work of ensuring... [mae 'the work of' yn ddiangen yma]

...[diogelu'r] holl gyllid sydd ar gael i Gymru ar hyn o bryd...

...all the funding that is currently available... [mae 'that is' yn ddiangen yma]

Croesawyd dros 26,000 o ymwelwyr a chafwyd rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau.
Over 26,000 visitors were welcomed and a varied programme of open air events was held.

...dathlwyd cwblhau'r gwaith adeiladu drwy gynnal yr eisteddfod gyntaf erioed...

...the completion of the construction work was celebrated by holding the very first eisteddfod...

[Er nad yw'r rhain yn anghywir, nid yw'r patrwm goddefol yn digwydd mor naturiol yn Saesneg ag yn Gymraeg.]

Cafwyd enghreifftiau eraill lle roedd patrwm y frawddeg wedi mynd yn drech na'r ymgeiswyr, e.e.:

...mae un o ystafelloedd y tŷ Sioraidd a adeiladwyd ar sylfeini'r castell canoloesol yn cynnwys arddangosfa ar hanes yr ŵyl.

...one of the Georgian home's rooms that was built on the castle's foundations...

Bellach bu drysau Castell Aberteifi ar agor i'r cyhoedd...

Aberteifi Castle's doors has now been open

A chafwyd ambell enghraifft hefyd lle newidiwyd trefn y frawddeg wreiddiol yn ddiangen, gan newid y pwyslais, e.e.:

Bellach bu drysau Castell Aberteifi ar agor i'r cyhoedd ers dros flwyddyn, a hynny wedi rhaglen adnewyddu helaeth gwerth £12 miliwn.

For over a year now, after a vast renovation programme worth £12 million, Cardigan Castle's doors have been open to the public.

...mae un o ystafelloedd y tŷ Sioraidd a adeiladwyd ar sylfeini'r castell canoloesol yn cynnwys arddangosfa ar hanes yr ŵyl.

...there is an exhibition on the castle's history in one room inside the Georgian house built on the foundations of the medieval castle.

Er bod parodrwydd i ystwytho rhywfaint ar batrwm y gwreiddiol i'w groesawu, yn enwedig er mwyn sicrhau bod y cyfieithiad yn llifo'n well, rhaid gochel rhag unrhyw ad-drefnu sy'n cymylu'r ystyr.

Llongyfarchiadau gwresog i'r ymgeiswyr llwyddiannus, felly, ac ochr yn ochr â hynny, carwn annog y rhai a fu'n aflwyddiannus y tro hwn i fanteisio ar bob cyfle i ddarllen Saesneg graenus ac ymgyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r iaith honno, er mwyn iddynt feithrin mwy o brofiad wrth gyfieithu i'r Saesneg a datblygu'r elfennau addawol sydd yn eu gwaith.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r tîm cyfan am bob cymwynas, ac am hwyluso fy ngwaith yn fawr.

Fiona Gannon
Tachwedd 2016